Dogfen ir Cyhoedd

COFNODION

BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD A MÔN

12 CHWEFROR, 2016

This page is intentionally left blank

Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Anglesey and Gwynedd Partnership

BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD A MÔN

ANGLESEY AND GWYNEDD LOCAL SERVICE BOARD

2:00yp – 4.30yp 12/02/2016 Ty Menai, Parc Menai, Bangor	2:00pm – 4.30pm 12/02/2016 Ty Menai, Parc Menai, Bangor

	RHAGLEN	**AGENDA**	
1.	Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd 18 Medi, 2015 – **i'w cymeradwyo.** Unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion –	Minutes of the meeting held on September 18, 2015 – **for approval.** Any matters arising from minutes –	Cofnodion_18_9_15_Cym.pdf Minutes_18_9_15_Eng.pdf
2.	**Cyflwyniad gan Elizabeth Woodcock, Prifysgol Bangor**- Crynodeb prosiect Ymchwil a'r budd i'r BGLl	**Presentation by Elizabeth Woodcock, Bangor University** - Summary of Research project and its benefits to the LSB	Eitem2_Woodcock_crynodeb_summary_v
3.	**Papur opsiynau daearyddol ar gyfer adnabod cymunedau fel sail i'r Asesiad o Lesiant Lleol Cenedlaethau'r Dyfodol**	**Geographical options to identify communities as a basis for the Assessment of Local Well-being - Future Generations**	Ymchwil_Asesiad Lles Cenedlaethau'r Dyfod Research_Wellbeing of future generations
4.	**Cyfeiriad y Bwrdd i'r dyfodol** • Cadeirydd 2016/2017 • Cynllunio ar gwaith pontio o BGLL i BGC	**Future direction of the Board** • Chair 2016/2017 • Planning the transition from the LSB to PSB	

5.	**Blaenoriaethau Allweddol y BGLl –** Diweddariad • **BA 1 Pobl Hŷn** • **BA 2 Adeiliadu Teuluoedd Cryfach** • **BA 3 Cymunedau Cynaladwy/ Adfywio Cymunedol**	**LSB Key Priorities –** Updates • **KPA 1 Older People** • **KPA 2 Building Resilient** • **Families KPA 3 Sustainable Communities/ Community Regeneration**	EITEM 5_BA2_Adeiladu Teul ITEM 5_KPA2_Building Resi
6.	**Ffrwd Gwaith Craffu BGLl ar y Cyd** – diweddariad	**LSB Joint Scrutiny work-stream** – update	ITEM 6_Outputs from CfPS Project (2)
7.	**Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** – drafft er cymeradwyaeth	**Communication and engagement Strategy** – draft for approval	Cyfathrebu_Cym.pdf LSB_Comms_Plan_Eng.pdf Ymgysylltu_Cym.pdf Engagement Plan_Eng.pdf
8.	Cadarnhau trefniadau'r cyfarfod nesaf: **22 Ebrill , 2016** Ty Menai, Parc Menai	Confirm arrangements of next meeting: **22 April, 2016** Ty Menai, Parc Menai	

BWRDD GWASANAETHAU LLEOL YNYS MÔN A GWYNEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2016
am 2.00pm yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor

YN BRESENNOL:

Walis George, Grŵp Cynefin **(Cadeirydd)**
Dawn Docx, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;
Iestyn Davies, Heddlu Gogledd Cymru;
Stephen Hughes, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru;
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru **(Is-gadeirydd)**;
Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Siobhan Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Cyngor Gwynedd (dirprwyo ar ran Arweinydd Cyngor Gwynedd);
Annwen Morgan, Cyngor Sir Ynys Môn
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru;
John R. Jones, Medrwn Môn;
Sian Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru
Y Cynghorydd Ieuan Williams, Cyngor Sir Ynys Môn;

Yn mynychu:

Janet Roberts, Cyngor Gwynedd
Llio Johnson, Cyngor Gwynedd
Rhian Bayley-Hughes, Cyngor Gwynedd
Iwan Jones, Cyngor Gwynedd

1. YMDDIHEURIADAU

Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd;
Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Cyngor Gwynedd;
Dr Gwynne Jones, Cyngor Sir Ynys Môn;
Emyr Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
Ian Rees, Grŵp Llandrillo Menai;
Andy Jones, Gwasanaeth Prawf Cymru;
Simon Dean, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
Jerry Hunter, Prifysgol Bangor;
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd.

2. CROESO

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau newydd i'r cyfarfod, sef Sian Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Uwch-arolygydd Dros Dro Iestyn Davies, Heddlu Gogledd Cymru a fydd yn mynychu dros dro yn lle Uwch-arolygydd Nigel Harrison.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

STRWYTHUR YR UNED PARTNERIAETHAU

Darparodd Janet Roberts ddiweddariad ar faterion ynglŷn â'r Uned Partneriaethau gan nodi'r pwyntiau a ganlyn:

- Roedd Prif Weithredwyr ac Arweinwyr y ddau awdurdod lleol wedi cyfarfod ac wedi cytuno i ymestyn secondiad yr Uwch Reolwr Partneriaethau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf, 2016/2017;
- Roedd y grŵp wedi cytuno ar y gyllideb ar gyfer 2016/2017 ac na fyddai'n llenwi swyddi gwag yn sgil secondiad a mamolaeth, a fyddai'n galluogi i aelod o dîm ymchwil Gwynedd gynorthwyo gyda'r asesiad llesiant;
- Dylai strwythur arfaethedig yr Uned Partneriaethau fod yn barod cyn diwedd 2016.

COMISIYNYDD POBL HŶN

Canslwyd y cyfarfod Bwrdd a drefnwyd ar gyfer 11 Rhagfyr 2015 gan nad oedd yn bosib i'r Comisiynydd Pobl Hŷn fynychu, ond bydd yn mynychu'r cyfarfod Bwrdd nesaf sydd wedi'i drefnu ar 22 Ebrill 2016.

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MEDI 2015

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ar 18 Medi 2015 yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

4. CYFLWYNIAD GAN ELIZABETH WOODCOCK, PRIFYSGOL BANGOR

Crynhodd Elizabeth Woodcock ei phrosiect ymchwil a'i fuddion i'r BGLl/BGC, a nodwyd y pwyntiau isod:

- Mae'r prosiect yn cael ei ariannu'n llawn gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a rhaglen grant ymchwil KESS 11 ac felly ni fydd cost i'r BGLl;
- Bydd yr ymchwil yn dechrau ym mis Ionawr 2016 a bydd yn rhedeg am dair blynedd yng Ngwynedd a Môn;
- Ei nod yw adeiladu gwybodaeth y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i'w helpu i ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015.
- Cynigiodd yr ymchwilydd fynychu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol / Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dros y tair blynedd nesaf.
  Nodwyd buddion posib pellach i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

PENDERFYNWYD

- Elizabeth i gyflwyno adroddiad ar ddiwedd Mai 2016 a thrafodaeth bellach yn ystod cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd ym mis Mehefin 2016.
- Cytunodd aelodau'r Bwrdd i barhau â'r ddeialog gyda'r ymchwilydd a rhannu papurau'r Bwrdd.

5. OPSIYNAU DAEARYDDOL I ADNABOD CYMUNEDAU FEL SAIL AR GYFER YR ASESIAD O LESIANT LLEOL

Cyflwynodd Iwan Jones bapur opsiynau i'r Bwrdd oedd yn darparu gwybodaeth am y prif opsiynau daearyddol y dylid eu hystyried fel sail i ymgymryd â'r Asesiad o Lesiant Lleol a fydd yn hysbysu cynlluniau sy'n ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Trafodwyd opsiynau i adnabod ardaloedd cymuned daearyddol ynghyd â'u cyfyngiadau.

PENDERFYNWYD

- Holl aelodau'r Bwrdd i wneud ymholiadau o fewn eu sefydliadau eu hunain er mwyn cael mewnbwn gan eu harbenigwyr eu hunain ynghylch sut ddylid gwneud hyn, gan nodi bod gofyn i'r fethodoleg fod yn iawn o'r dechrau ac mai asesiad y bartneriaeth fydd hwn y dylid ei ddefnyddio i wella llesiant.
- Llio i wahodd partneriaid eraill i'r cyfarfod ymchwil oedd wedi'i drefnu ar gyfer 4 Mawrth 2016 i drafod ymhellach.

6. CYFEIRIAD Y BWRDD YN Y DYFODOL
Cadeirydd

PENDERFYNWYD

- Cytunodd Cadeirydd presennol y BGLl mewn egwyddor i gadeirio cyfarfodydd y Bwrdd hyd nes i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gael ei sefydlu.

CYNLLUNIO'R TRAWSNEWID O'R BWRDD GWASANAETHAU LLEOL I'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Partneriaethau bapur yn amlygu'r camau yr oedd gofyn cytuno arnynt er mwyn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn cyn drafftio'r cylch gorchwyl. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Byddai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cychwyn ar 1 Ebrill 2016;
- Mae'r Ddeddf yn nodi y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cael ei ddiddymu a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei sefydlu o 1 Ebrill 2016;

Nodwyd y camau pellach sydd eu hangen yn dilyn cytuno ar y cylch gorchwyl a sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Asesu cyflwr llesiant yn yr ardal;
- Paratoi Cynllun Llesiant Lleol;
- Adrodd ar gynnydd;
- Atebolrwydd lleol;
- Sefydlu strwythur i gyflwyno amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Cytuno ar ba adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a drafftio cytundeb partneriaeth i gyfarch hyn.

Yn dilyn trafodaethau, nodwyd y byddai'n werthfawr cynnal gweithdy er mwyn annog cwestiynau a materion.

PENDERFYNWYD

- **Aelodau'r Bwrdd i roi o'u hamser i fynychu gweithdy i fynd i'r afael â thrawsnewid y BGLl i fod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

7. FFRYDIAU GWAITH BLAENORIAETH ALLWEDDOL

7.1 Prif Faes Blaenoriaeth 1 - Pobl Hŷn

Darparodd Ffion Johnstone ddiweddariad llafar - roedd gwaith wedi dechrau gyda Dementia ac Iechyd Meddwl a Gofalwyr. Roedd prosiectau penodol wedi'u comisiynu ar gyfer y chwarter hwn a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Byddai cyflwyniad am y ffrwd gwaith hon yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod mis Ebrill yn ystod ymweliad y Comisiynydd Pobl Hŷn.

7.2 Prif Faes Blaenoriaeth 2 – Creu Teuluoedd Gwydn

- Nododd Iestyn Davies bod mapio'r ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol yng Ngwynedd a Môn er mwyn adnabod bylchau wedi'i gwblhau. Mae dadansoddiad cychwynnol o'r data yn cadarnhau mai'r risg uchaf ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd yw'r elfen o arian grant ar gyfer y gwaith hwn, sy'n gwneud unrhyw waith i gynllunio gwasanaethau i deuluoedd yn yr hirdymor yn anodd iawn.
- Nid oedd dadansoddi pellach wedi'i wneud yn sgil cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Diolchodd Iestyn i Bethan Morris (Uned Partneriaethau) a Mark Armstrong am eu gwaith.

PENDERFYNWYD

- Argymhellir fod y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yn hyn yn cael ei drosglwyddo i'r Bwrdd Prosiect Rhanbarthol sydd wedi'i sefydlu er mwyn cynhyrchu'r Asesiad Poblogaeth Iedled gogledd Cymru;
- Yr Asesiad Poblogaeth terfynol i'w gyflwyno i'r Bwrdd cyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus gydag adroddiadau cynnydd i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod Bwrdd yn ystod 2016.

7.3 Prif Faes Blaenoriaeth 3 – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedau

Rhannu Asedau - Darparodd Geraint Hughes ddiweddariad llafar ac esboniodd ei fod wedi gwahodd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Ambiwlans i fod yn rhan o'r grŵp prosiect a'u bod nhw'n gweithio ar ymarferiad mapio ar hyn o bryd er mwyn canfod pa adeiladau sydd ar gael; bydd y cylch gorchwyl yn ymestyn i archwilio pa asedau cymunedau cyhoeddus sydd ar gael.

8. FFRWD GWAITH CRAFFU AR Y CYD Y BGLI

Mae grŵp tasg y panel craffu yn parhau i weithio'n agos gyda'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus. Mae Rebecca David-Knight yn arwain ar y gwaith paratoi i'r panel. Nodwyd y pwyntiau isod:

- Roedd Rebecca David-Knight wedi cynnig cyflwyno egwyddorion ac ymarfer craffu aml-asiantaethol effeithiol i'r Bwrdd gyda'r nod o roi gwybod i aelodau'r Bwrdd beth i'w ddisgwyl o'i berthynas gyda'r Panel Craffu ar y Cyd;
- Methodoleg arfaethedig ar gyfer y Panel Craffu ar y Cyd, y byddai'n rhaid ei rhannu gyda'r BGLI/BGC.

PENDERFYNWYD

- **Nodwyd adroddiad Rebecca i'r BGLI.**

9. CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU – DRAFFT ER CYMERADWYAETH

Cyflwynodd Rhian Bayley-Hughes strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ddrafft i'r Bwrdd gan esbonio y cynhyrchwyd y strategaeth ddrafft fel ymateb i Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn yn 2015. Mae'r adroddiad drafft yn cynrychioli'r BGLl yn ei ffurf gyfredol a bydd angen ei ddatblygu ymhellach i adlewyrchu'r trawsnewid i fod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r adnoddau oedd ar gael hyd yn hyn.

PENDERFYNWYD

- Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Bwrdd;
- Pennir ei bod yn angenrheidiol creu is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu; bydd aelodau'n cynnwys swyddogion cyfathrebu o'r sefydliadau partner er mwyn datblygu strategaeth gynaliadwy - Llio i hwyluso trafodaethau.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD nodi manylion y trefniadau a wnaed i gynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 22 Ebrill 2016 yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd am 10.00am.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.55pm